Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cynllun Datblygu Lleol (2017 – 2033)

## Adborth o Seminarau Aelodau a Rhanddeiliaid Ebrill 2018 – Gweledigaeth Drafft

# Cynnwys


Cyflwyniad .... 3

Crynodeb o'r Sylwadau a gafwyd .... 3

Y Weledigaeth Ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd 2017-2033: .... 3

Y camau nesaf .... 4

Atodiad 1: Y Weledigaeth gyfredol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (hyd at 2021) .... 5

Atodiad 2: Dogfennau newydd sy'n berthnasol i Weledigaeth Newydd ar gyfer y CDLl Diwygiedig: 6

Atodiad 3: Gweledigaeth - Crynodeb o'r Sylwadau .... 8

**Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl2: 2017 – 2033) – Gweledigaeth**

## Cyflwyniad

Cyn Cynhaliwyd seminarau gyda Chynghorwyr Sir (23 Ebrill 2018) a Rhanddeiliaid (26 Ebrill 2018) i'w cynnwys yn y gwaith o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac roeddent yn cynnwys ffocws penodol ar yr Amcanion a ddylai gael eu cynnwys yn y CDLl newydd. Cyflwynwyd y weledigaeth gyfredol ar gyfer y CDLl yn y seminar (gweler Atodiad 1) a darparwyd y wybodaeth hon hefyd ar ddogfennau allweddol a fydd yn llywio'r CDLl newydd, gan gynnwys: Cynllun Gofodol cyfredol Cymru, Gweledigaeth gorfforaethol Cyngor Sir Penfro, blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir Benfro, Argraffiad 10 o'r Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig (drafft ymgynghori) a Phroffil Economaidd Sir Benfro (gweler Atodiad 2). Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol, mewn grwpiau ymneilltuo i wneud y canlynol:

*Meddwl am yr adran flaenorol ar y Materion - dylai'r Weledigaeth nodi pa fath o le fydd Sir Benfro yn 2033.*

- Pa elfennau o'r Weledigaeth Gyfredol ddylai aros ar gyfer y CDLl Newydd?
- A oes unrhyw elfennau newydd y dylid eu cyflwyno?

Cofnodwyd y sylwadau ar siartiau troi a'u bwydo'n ôl i'r ystafell, gan roi cyfle i ddiwygio neu ychwanegu at y sylwadau.

## Crynodeb o'r Sylwadau a gafwyd

Crynhoir y sylwadau yn Atodiad 3. Mae'r tabl yn cynnwys sylwadau ac yn nodi pa rai a ymgorfforwyd yn y Weledigaeth ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd.

## Y Weledigaeth Ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd 2017-2033:

Yn 2033 mae Sir Benfro yn ardal sydd â chymunedau dyfeisgar cadarn, lle yr ymdrinnir yn llwyddiannus â heriau gwledigrwydd. Mae ymdeimlad unigryw o le yn bodoli yn seiliedig ar ei threftadaeth naturiol, ddiwylliannol, adeiledig ac ieithyddol. Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn galluogi pobl o bob oed i weithio, byw a ffynnu yn y Sir. Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau newydd, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrffordd Aberdaugleddau a chysylltiadau ag Iwerddon. Mae Canol Trefi yn llefydd bywiog a gaiff eu defnyddio mewn ffyrdd amrywiol. Cefnogir cymunedau gwledig i ddelio ag arferion amaethyddol sy'n newid.

Ledled y Sir caiff y Seilwaith Gwyrdd a bioamrywiaeth eu gwella gydag amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwyllt.

## Y camau nesaf

Bydd ymgynghoriad anffurfiol ar y Materion y dylai CDLl fynd i'r afael â nhw, y Weledigaeth ddrafft a'r Amcanion drafft ochr yn ochr ag opsiynau Twf ar gyfer y Strategaeth CDLl yn cael eu cynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2018. Bydd hyn yn cynnwys gweithdai penodol gydag Aelodau, Rhanddeiliaid a Chynghorau Cymuned, ond bydd pob papur hefyd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan gyda chyfle i aelodau o'r cyhoedd roi sylwadau. Yn dilyn yr ymgynghoriad anffurfiol hwn, caiff y Strategaeth a Ffefrir ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Atodiad 1: Y Weledigaeth gyfredol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (hyd at 2021)

**Gweledigaeth y CDLl:**

*"Sicrhau bod Sir Benfro yn ffynnu ac yn parhau yn rhywle bywiog ac arbennig drwy greu: rhwydwaith o gymunedau trefol a gwledig mewn Trefi Ffocws, Canolfannau Gwasanaethol, Pentrefi Gwasanaethol a Phentrefi Lleol sy'n cael eu cefnogi gan economi amrywiol, gynaliadwy a chadarn sy'n ychwanegu gwerth uchel, ac a gynhelir gan amgylchedd unigryw'r Ardal, y mynediad i'r môr yn Nyfrffordd Aberdaugleddau a Harbwr Abergwaun a chyfleoedd ym maes ynni a thwristiaeth sy'n bwysig yn rhyngwladol."*

## Atodiad 2: Dogfennau newydd sy'n berthnasol i Weledigaeth Newydd ar gyfer y CDLl Diwygiedig:

**Gweledigaeth Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Penfro (2017-2018)**

"Gweithio gyda'n gilydd i wella bywyd yn Sir Benfro"

**Blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir Benfro:**

Byw a Gweithio

Cymunedau Dyfeisgar

Mynd i'r afael â Gwledigrwydd

Diogelu'r Amgylchedd.

**Datganiadau allweddol:**

"Mae Sir Benfro yn sir ffyniannus a chyfoethog lle mae pobl yn dewis byw a gweithio, a lle mae busnesau'n buddsoddi." Cynllun Llesiant Tud. 14

"Drwy sicrhau ein bod fel sir, yn dangos ein hymrwymiad i gynaliadwyedd ymarferol tymor hir o ran yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant byddwn yn gwneud Sir Benfro yn lle deniadol i bobl fyw, gweithio a buddsoddi ynddo." Cynllun Llesiant Tud. 17

"Mae ein cymunedau i gyd yn ymwneud yn llwyr â mentrau cymunedol i leihau allyriadau carbon." Cynllun Llesiant Tud. 18

"Hyrwyddo'r amgylchedd fel ased iechyd i wella iechyd a llesiant, mynd i'r afael ag unigrwydd cymdeithasol, gwella iechyd meddwl a buddiannau iechyd ehangach drwy brosiectau fel rhagnodi cymdeithasol a rhagnodi gwyrdd" Cynllun Llesiant Tud. 22

**Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10 – DRAFFT ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus)**

Prif Amcan Polisi i gefnogi Creu Lle.

- **Pum Egwyddor Cynllunio allweddol:**
- **Y Datblygiad Cywir yn y Lle Cywir**
- **Defnydd Gorau o Adnoddau**
- **Amgylcheddau Hygyrch ac Iach**
- **Creu Cymunedau Cynaliadwy**
- **Diogelu'r Amgylchedd**

**Proffil Economaidd Sir Benfro (Mehefin 2015):**

"Nod tymor hwy Sir Benfro yw ysgogi twf organig drwy fuddsoddi mewn sgiliau, ymchwil ac arloesedd. Mae cryfderau'r rhanbarth yn cynnwys ynni glân, twristiaeth gynaliadwy a'r economi wledig." Tud.1

| Atodiad 3: Gweledigaeth - Crynodeb o'r Sylwadau | **Ymateb** | **Gweithred a Argymhellir** |
|---|---|---|
| **Beth ddylai aros yn y Weledigaeth? Pa elfennau newydd y dylid eu cyflwyno?** | | |
| Er mwyn sicrhau bod Sir Benfro yn ffyniannus a'i bod yn parhau i fod yn fywiog ac yn arbennig drwy gynnal cymunedau trefol, gwledig a morol cryf, wedi'u cefnogi gan economi gadarn, wedi'i hategu gan amgylchedd unigryw yr ardal.<br><br>Dylai gadw'r cyfeiriad at gymunedau cynaliadwy<br>Dylai gadw'r cyfeiriad at amgylchedd unigryw<br>Dileu'r cyfeiriad at Drefi Ffocws, Canolfannau Gwasanaeth, Pentrefi Gwasanaethu a Phentrefi Lleol.<br>Angen sicrhau Sir Benfro Ffyniannus/Economi wledig gadarn<br>Cartrefi i bawb | Noder y dewis ar gyfer gweledigaeth symlach nad yw'n cynnwys cyfeiriad at lefelau'r hierarchaeth aneddiadau. Hefyd noder mai'r tri maes allweddol a nodwyd i'w cadw yw cymunedau cynaliadwy, amgylchedd unigryw a Sir Benfro ffyniannus. Mae'r awgrym o 'Gartrefi i Bawb' yn ymdrin â'r angen i fynd i'r afael â thai fforddiadwy yn ogystal â thai i bobl ifanc, yr henoed a theuluoedd. | Edrych ar ddull symlach o Weledigaeth sy'n ymgorffori'r tri maes allweddol a nodwyd o'r Weledigaeth gyfredol. Mae blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro yn defnyddio'r term cymunedau dyfeisgar yn hytrach na chymunedau cynaliadwy. Ystyried cyflwyno'r term Cartrefi i bawb yn y Weledigaeth. |
| Sir Benfro: lle sy'n ffyniannus, yn wyrdd, yn fywiog ac yn falch. Lle mae cymunedau gwledig a threfol yn cefnogi cynaliadwyedd, dyheadau a'r economi leol i wella Sir Benfro o ran ei chyfleoedd ar gyfer ynni a thwristiaeth<br><br>Eitemau a godwyd i'w cynnwys oedd<br>- Diogelu a gwella'r amgylchedd | Noder y term gwyrdd a gyflwynir yn y Weledigaeth a'r ffocws ar yr economi o ran sir sy'n gweithio'n galed, gweithlu medrus, swyddi â chyflogau da a chynaliadwyedd. | Sicrhau bod cyfeiriad at wyrddni a ffocws ar yr economi sy'n trafod y materion ynghylch galluogi cyfleoedd am swyddi yn y Sir. |

| Atodiad 3: Gweledigaeth - Crynodeb o'r Sylwadau | **Ymateb** | **Gweithred a Argymhellir** |
|---|---|---|
| **Beth ddylai aros yn y Weledigaeth? Pa elfennau newydd y dylid eu cyflwyno?** | | |
| - Sir sy'n gweithio'n galed<br>- Cymunedau cryfach<br>- Gweithlu medrus<br>- Swyddi â chyflogau da<br>- cynaliadwyedd | | |
| Mae'r weledigaeth gyfredol yn cwmpasu pob pwynt allweddol, ond mae angen ei aralleirio (er mwyn ei gwneud yn fwy cryno a grymus).<br>Dim angen crybwyll yr Hierarchaeth Aneddiadau - mae hynny'n rhy fanwl.<br>Dileu cyfeiriadau at Ddyfrffordd y Ddau Gleddau ac Abergwaun ac ychwanegu cyfeiriadau mwy cyffredinol at dreftadaeth ddiwylliannol a morol.<br>Cyfeirio at dai fforddiadwy, byw â chymorth ac adfywio canol trefi.<br>Cyfeirio at Sir Benfro fel lle iach i fyw a gweithio ynddo.<br>Sôn am yr amgylchedd o ansawdd uchel yn Sir Benfro.<br>Cyfeirio at deithio cynaliadwy. | Noder yr awgrym y dylai'r Weledigaeth fod yn fwy cryno ac awgrymir hefyd y dylid dileu'r cyfeiriad at yr hierarchaeth aneddiadau.<br><br>Noder y cyfeiriadau at dreftadaeth ddiwylliannol, dylanwadau morol, tai fforddiadwy ac adfywio. Nid oes cyfeiriad at iechyd yn y Weledigaeth ar hyn o bryd ac mae'r pwynt hwn yn un pwysig. Ail grŵp i gyfeirio at y cysyniad 'cartrefi i bawb'. | Cefnogi'r lleihad ym maint y Weledigaeth. Cefnogi cyfeiriadau newydd a awgrymir at dreftadaeth ddiwylliannol, amgylcheddau iach i bobl ac adfywio canol trefi. Dylai'r cyfeiriad at 'Cartrefi i bawb' ymgorffori tai fforddiadwy. |

| Atodiad 3: Gweledigaeth - Crynodeb o'r Sylwadau | **Ymateb** | **Gweithred a Argymhellir** |
|---|---|---|
| **Beth ddylai aros yn y Weledigaeth? Pa elfennau newydd y dylid eu cyflwyno?** | | |
| Cyfeirio at y cysyniad 'cartrefi i bawb'. | | |
| Cadw'r cyfan. Yn hapus gyda'i hyd ac yn credu y byddai rhywbeth yn cael ei hepgor pe bai'n cael ei gwtogi.<br><br>Cyfeiriad at ficro-fusnesau, ynni glân, band eang, ceir trydan, yr iaith Gymraeg, cynlluniau enghreifftiol fel tŷ solar ac amaethyddiaeth.<br>Mwy o hyblygrwydd er mwyn gallu llyfnhau a dangos ffiniau aneddiadau mewn modd synhwyrol.<br>Awgrymwyd y dylid ymgynghori â phob aelod o'r cyhoedd ac arbenigwr a gweledydd ynghylch y Weledigaeth<br>Dathlu a gwella amgylchedd o'r radd flaenaf | Noder y pryder y gallai rhywbeth gael ei hepgor pe bai'r Weledigaeth yn cael ei chwtogi ormod. Noder y cyfeiriadau newydd a awgrymwyd sy'n cynnwys micro-fusnesau, ynni glân, band eang, ceir trydan, yr iaith Gymraeg, cynlluniau enghreifftiol ac amaethyddiaeth. Mae'r cyfeiriad at ffiniau aneddiadau yn fater a gaiff ei gynnwys mewn trafodaethau diweddarach ar y Strategaeth. Cefnogi awgrym y dylid ymgysylltu'n gynnar o ran y Weledigaeth. | Cefnogi cyfeiriad at economi werdd a fyddai'n ymgorffori ynni glân a cheir trydan. Cefnogi cyfeiriad penodol at iaith ac amaethyddiaeth. |
| Cael rhestr o bwyntiau bwled yn hytrach na datganiad | Noder yr awgrym am restr o bwyntiau bwled a diagram neu ddarlun | Cynnwys cyfeiriad at amgylcheddau hygyrch ac iach. Ystyried cyfeiriadau at |

| Atodiad 3: Gweledigaeth - Crynodeb o'r Sylwadau | **Ymateb** | **Gweithred a Argymhellir** |
|---|---|---|
| **Beth ddylai aros yn y Weledigaeth? Pa elfennau newydd y dylid eu cyflwyno?** | | |
| Ystyried p'un ai diagram neu ddarlun fyddai'n cyfleu'r neges orau (ac os felly, sut olwg fyddai arno)<br>Pwysleisio'r agwedd ofodol - gan mai hyn sy'n gwneud cynllunio'r defnydd o dir yn wahanol i lawer o fathau eraill o ymyriadau polisi.<br>Pwysleisio amgylcheddau hygyrch ac iach<br>Mae'r weledigaeth gyfredol ychydig yn hen ffasiwn, felly ei hystyried ochr yn ochr â dulliau gweithredu cyfredol - mewn geiriau eraill, ei diweddaru<br>Sicrhau bod cyfeiriadau at newid yn yr hinsawdd, iechyd, llesiant, ynni glân / gwyrdd a threftadaeth<br>Gwneud y datganiad yn fwy cyffredinol a llai manwl<br>Ystyried yr angen am fynwentydd newydd | Mae cyfeiriad at agweddau gofodol ac amgylcheddau hygyrch ac iach yn ddefnyddiol a chaiff ei gynnwys. Noder yr awgrymiadau ynghylch cyfeiriadau at newid yn yr hinsawdd, iechyd, llesiant, ynni glân / gwyrdd a threftadaeth.<br>Trafodir yr ystyriaeth fanwl o'r angen am fynwentydd pan gaiff y polisi cyfleusterau cymunedol ei adolygu. | newid yn yr hinsawdd, iechyd, llesiant, ynni glân / gwyrdd a threftadaeth. |
| Dileu'r cyfeiriad at bob ffocws (hub)<br>Ychwanegu gwerth uchel - nid yw'n ymdrin â'r economi a realiti | Noder mai hwn yw'r trydydd grŵp i gefnogi dileu cyfeiriadau at elfennau penodol o'r hierarchaeth ofodol. Noder y cyfeiriad at bwysigrwydd cenedlaethol | Dileu cyfeiriad at bob ffocws (hub). Cadw'r cyfeiriad at Ddyfrffordd y Ddau Gleddau. Ystyried cyfeirio at sicrhau bod gwledigrwydd yn gweithio a chefnogi |

| Atodiad 3: Gweledigaeth - Crynodeb o'r Sylwadau | **Ymateb** | **Gweithred a Argymhellir** |
| --- | --- | --- |
| **Beth ddylai aros yn y Weledigaeth? Pa elfennau newydd y dylid eu cyflwyno?** | | |
| Sir Benfro. Yr eithriad yw Dyfrffordd y Ddau Gleddau sydd o bwys cenedlaethol.<br>Angen cefnogi economïau lleol (nid dull canol y ddinas a sicrhau bod gwledigrwydd yn gweithio)<br>Gwneud Sir Benfro yn lle gwych i fyw ynddo<br>Denu busnes 'Sun rise' a mynd i'r afael ag ansawdd bywyd<br>Angen gweledigaeth syml.<br><br>Cydnabyddir bod angen i'r weledigaeth gyd-fynd â rôl cynllunio<br>Amgylchedd - angen adfer a gwella (enillion net) a'r datblygiad cywir yn y lle cywir<br>Byw a gweithio yn Sir Benfro<br>Diogelu'r hyn sy'n wych (treftadaeth, diwylliant)<br>Annog arloesedd, cefnogi creadigrwydd ac uchelgais<br>Gwella'r amgylchedd<br>Cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg<br>Cydlyniant cymunedol | Dyfrffordd y Ddau Gleddau a'r angen i sicrhau bod gwledigrwydd yn gweithio a chefnogi economïau lleol ochr yn ochr â hyn. Byddai busnes 'Sun rise' yn golygu cefnogi busnesau newydd. Noder y gefnogaeth i wella'r amgylchedd a defnyddio'r term 'datblygiad cywir yn y lle cywir' - fodd bynnag, efallai y bydd hwn yn gweddu'n well i amcan. Noder y gefnogaeth i hyrwyddo treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg, nas nodwyd yn flaenorol yn y Weledigaeth. | economïau lleol. Cynnwys cyfeiriad at dreftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn Sir Benfro. |

| Atodiad 3: Gweledigaeth - Crynodeb o'r Sylwadau | **Ymateb** | **Gweithred a Argymhellir** |
|---|---|---|
| **Beth ddylai aros yn y Weledigaeth? Pa elfennau newydd y dylid eu cyflwyno?** | | |
| Rhy hir mewn rhai mannau - Nid oes angen cyfeirio at hierarchaeth aneddiadau na Harbwr Abergwaun/Menter Aberdaugleddau.<br>Geiriau Allweddol - ffyniannus, cynaliadwy, amrywiol, addasadwy<br>Rhy gyffredinol - Mae angen iddo fod yn benodol i Sir Benfro.<br>Rhywle i bawb fyw ac nid ymweld ag ef yn unig - mae angen i'r Sir wneud mwy i gadw'r grŵp oedran 16-40 rhag gadael, felly, dylai'r ffocws fod ar gyfleoedd addysg a chyflogaeth.<br>Cymunedau - A ydynt yn bodoli ac a all cynllun polisi a gofodol gyflawni cydlyniant cymunedol yn realistig.<br>Amgylchedd - Pe bai'r ffocws yn symud o gymunedau i'r amgylchedd naturiol, yna gallai ganolbwyntio ar wella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (gan gynnwys archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol). | Fel gyda grwpiau eraill, noder yr awydd i leihau maint a dileu'r cyfeiriad at yr hierarchaeth aneddiadau. Noder y geiriau allweddol a gynigir. Cefnogi'r awgrym fod y Weledigaeth yn adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â cholli'r grŵp oedran 16-40. Noder y sylwadau ar yr amgylchedd a'r hyn y gellir ei gyflawni. | Dileu cyfeiriadau penodol at hierarchaeth. Ymgorffori geiriau allweddol lle y bo'n bosibl a chynnwys cyfeiriadau at gyfleoedd i bawb weithio yn y Sir. |

| Atodiad 3: Gweledigaeth - Crynodeb o'r Sylwadau | **Ymateb** | **Gweithred a Argymhellir** |
| --- | --- | --- |
| **Beth ddylai aros yn y Weledigaeth? Pa elfennau newydd y dylid eu cyflwyno?** | | |
| Twristiaeth - Pa fath? Twristiaeth ar raddfa fawr ar gyfer swyddi parhaol.<br><br>Angen bod yn gyflawnadwy - Gweler cymunedau a'r amgylchedd uchod.<br>Ffocws ar Sir Benfro - Ni ddylai fod yn bosibl 'copïo a gludo' i ranbarthau eraill. | | |